



Datblygu **rhif**

Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol

Ddoe a heddiw

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol

Datblygu rhif

- Cynulleidfa** Athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2, yn enwedig y rhai sydd â dosbarthiadau Blwyddyn 5; awdurdodau lleol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Mae'r deunyddiau newydd hyn yn cefnogi dysgu, addysgu ac asesu sgiliau dysgwyr Blwyddyn 5. Maen nhw wedi eu dylunio i gynorthwyo ysgolion wrth roi'r cwrwclwm ysgol diwygiedig a'i fframweithiau ar waith.
- Camau i'w cymryd** Gofynnir i uwch reolwyr ysgolion a chynghorwyr awdurdod leol codi ymwybyddiaeth o'r deunyddiau newydd hyn o fewn eu hysgolion, ac i annog athrawon i ddefnyddio'r deunyddiau er mwyn cefnogi eu ffocws ar ddatblygu sgiliau dysgwyr.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwrwclwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0800 083 6003
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk
- Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 0870 242 3206 (cyfrwng Cymraeg)
0845 603 1108 (cyfrwng Saesneg)
Ffacs: 01767 375920
e-bost: dcells1@prolog.uk.com
- Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** *Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol ar gyfer Blwyddyn 5 – Trosolwg;*
Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol: Datblygu cyfathrebu; Deunyddiau Asesu Sgiliau Dewisol: Datblygu meddwl (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009)

Mae'r deunyddiau hyn ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Trosolwg	2
Cysylltiadau â'r fframwaith sgiliau	3
Cysylltiadau â'r cwricwlwm	4
Gweithgaredd 1: Diwrnod Joseph	5
Cysylltiadau â'r fframwaith sgiliau	5
Cyd-destun	5
Adnoddau	5
Datblygu'r gweithgaredd (rhan 1)	6
Datblygu'r gweithgaredd (rhan 2)	7
Beth i chwilio amdano	10
Taflenni i'w llungopïo	11
Gweithgaredd 2: Gwaith a chwarae	15
Cysylltiadau â'r fframwaith sgiliau	15
Cyd-destun	15
Adnoddau	15
Datblygu'r gweithgaredd (rhan 1)	16
Datblygu'r gweithgaredd (rhan 2)	18
Beth i chwilio amdano	23
Taflenni i'w llungopïo	24

Trosolwg

Darperir dau gweithgaredd perthynol seiliedig ar fywyd bachgen 10 mlwydd oed oedd yn gweithio mewn pwll glo yng Nghymru yn ystod yr 1840au:

- **Gweithgaredd 1: Diwrnod Joseph**
- **Gweithgaredd 2: Gwaith a chwarae**

Gan fod y Rhaglen Astudio ar gyfer Hanes yn gofyn am astudiaeth o fywyd dyddiol yn eich ardal leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae'r disgrifiad yma o ddiwrnod plentyn sy'n gweithio mewn gwaith glo yn ddarn o waith ffuglen. Fodd bynnag, mae wedi'i seilio ar dystiolaeth o ardaloedd glofaol Cymru a geir yn Adroddiad Y Comisiwn Brenhinol ar Waith ac Amodau Plant mewn Pyllau Glo a Ffatrioedd Gweithgynhyrchu, 1842. Gellid canfod tystiolaeth debyg ar gyfer ardaloedd eraill yng Nghymru yn adroddiadau'r Comisiwn Brenhinol ar Gyflogi Plant, Pobl Ifanc a Gwagedd mewn Amaethyddiaeth ac yn adroddiadau'r Comisiwn Brenhinol ar Gyflogi Plant a Phobl Ifanc yn y Gweithfeydd Glo a Haearn.

Yng Ngweithgaredd 1, mae'r dysgwyr yn gosod set o gardiau yn eu trefn, pob un yn cynnwys gwybodaeth am sut roedd Joseph Evans yn treulio diwrnod arferol mewn pwll glo yn yr 1840au. Yna, mae'r dysgwyr yn trafod y darluniau ar y daflen adnoddau i ddeall yn well yr amodau gwaith mewn pwll glo yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn olaf, mae'r dysgwyr yn defnyddio taflen ffeithiau a thaflen waith i ddatrys nifer o broblemau rhif yn ymwneud â bywyd Joseph Evans.

Yng Ngweithgaredd 2, mae'r dysgwyr yn cymharu sut oedd Joseph yn treulio'i amser â'u profiad nhw yn ystod diwrnod ysgol. Gofynnir i'r dysgwyr gwblhau tablau, llunio siartiau addas a thrafod yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng eu diwrnod nhw a diwrnod Joseph, gan ddefnyddio'u graffiau i egluro'u syniadau.



Nid tasgau asesu sydd wedi'u hamseru yw'r gweithgareddau hyn, felly dylech deimlo'n rhydd i addasu'r deunyddiau a ddarperir, i weddu anghenion eich dysgwyr.

Awgrymiadau yw'r amseroedd a roddir ar ddechrau'r gweithgareddau. Bydd rhai gweithgareddau yn cymryd llai o amser, tra bod eraill yn cymryd llawer mwy. Bydd hwn yn dibynnu ar y llwybrau mae'r dysgwyr yn dilyn a'u diddordeb yn y gweithgaredd ei hun.

Grwpio'r dysgwyr

I hyrwyddo cydweithio, dylid trefnu'r dysgwyr mewn grwpiau neu barau a'u hannog i rannu a thrafod eu syniadau. Ar adegau pwrpasol, dylai'r grwpiau ddod at ei gilydd i gyflwyno a chymharu eu syniadau a'r dulliau a ddefnyddiwyd ganddyn nhw.

Ar adegau eraill, efallai y byddwch yn dymuno gofyn i'r dysgwyr weithio'n annibynnol i ddarparu tystiolaeth o'u gwybodaeth a'u sgiliau. O ganlyniad, gellir defnyddio'r taflenni gwaith gyda grwpiau, parau neu unigolion, fel y gwelwch chi sydd fwyaf addas.

Cysylltiadau â'r fframwaith sgiliau

Wrth i'r dysgwyr weithio ar y deunyddiau hyn, byddan nhw'n creu tystiolaeth fydd yn cyfrannu tuag at eu proffil sgiliau unigol.

Yn yr adran 'Datblygu rhif ar draws y cwricwlwm' o'r fframwaith sgiliau mae tair prif elfen:

Defnyddio gwybodaeth fathemategol, Cyfrifo a Dehongli canfyddiadau a'u cyflwyno. Rhennir y tair hyn ymhellach yn ddau neu'n dri llinyn. Gelwir y llinynnau hyn yn 'egwyddorion' yn y fframwaith sgiliau. Dangosir yr egwyddorion hyn isod.

Defnyddio gwybodaeth fathemategol

- Defnyddio rhifau
- Mesur
- Casglu gwybodaeth

Cyfrifo

- Defnyddio'r system rifau
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau

Dehongli canfyddiadau a'u cyflwyno

- Trafod ac esbonio gwaith
- Cymharu data
- Cofnodi a dehongli data a chyflwyno canfyddiadau

Gellir cysylltu'r dystiolaeth a gynhyrchir gan y gweithgareddau â'r celloedd er mwyn cael syniad o gynnydd dysgwr unigol yn y sgil perthnasol.

Fodd bynnag, wrth wneud hyn, dylech fod yn ymwybodol o'r pwyntiau canlynol:

- Rhan fechan o'r holl dystiolaeth sydd ar gael i chi a gynhyrchir gan y gweithgareddau hyn.
- Cynhyrchir llawer o dystiolaeth yn ystod dysgu ac addysgu beunyddiol arall; dylid cynnwys rhannau ystyrlon o hyn hefyd ym mhroffil sgiliau'r dysgwyr.
- Bydd y dystiolaeth a gynhyrchir gan unrhyw weithgaredd yn debygol o gyfrannu tuag at amrywiaeth o egwyddorion a chelloedd.

Mae'r pwynt olaf o fudd arbennig wrth i chi ddarllen yr adran **Beth i chwilio amdano** sydd yn rhan o bob gweithgaredd.

Bwriad yr adrannau hyn yw hwyluso casglu'r dystiolaeth drwy ganolbwyntio ar ddau neu dri yn unig o'r wyth egwyddor. Fodd bynnag, golyga hyn mai ond peth o'r dystiolaeth a ddefnyddir.

Wrth i chi ddod yn fwyfwy cyfarwydd â'r gweithgareddau hyn, dylech weld eich bod yn ymgorffori rhagor o'r dystiolaeth a gewch i rai o'r egwyddorion a/neu'r celloedd eraill.

Ymhob egwyddor mae chwe chell sy'n cyfateb i'r camau sydd yn natblygiad pob sgil. Er enghraifft, dangosir isod y chwe chell o'r egwyddor **Mesur**.

Cymharu dau wrthrych neu ragor gan gymharu eu priodweddau ffisegol yn uniongyrchol.	Mesur a chymharu hyd a màs; trefnu digwyddiadau yn ôl amser.	Dewis a defnyddio unedau mesur bob dydd ac offer mesur cyfarwydd; darllen graddfeydd â lefel briodol o gywirdeb.	Defnyddio offer mesur cywirach â graddnodau manylach. Amcangyfrif yn rhesymol ystod o fesuriadau mewn sefyllfaoedd bob dydd. Defnyddio unedau cywir ar gyfer mesuriadau cyfansawdd megis cyfaint, dwysedd neu gyflymder.	Darllen graddfeydd ar amrywiaeth o offer mesur â lefelau penodol o gywirdeb.	Gwneud arsylwadau cywir a dibynadwy gan ddewis offer addas; mesur mewn amrywiaeth o unedau priodol.
---	--	--	--	--	---

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Hanes

Sgiliau: Ymwybyddiaeth gronolegol

2. defnyddio'r geiriau allweddol priodol i amcangyfrif, mesur a disgrifio treigl amser

Hanes

Sgiliau: Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol

1. adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau

Hanes

Sgiliau: Ymholi hanesyddol

1. gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol

Hanes

Sgiliau: Trefnu a chyfathrebu

1. dewis, cofnodi, a threfnu gwybodaeth hanesyddol
2. cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys TGCh

ABCh

Sgiliau: Datblygu cyfathrebu

- gwrando'n astud, gofyn cwestiynau ac ymateb i bobl eraill

ABCh

Sgiliau: Gweithio gydag eraill

- cydweithio i ddatrys problemau
- uniaethu â phrofiadau a theimladau pobl eraill

Cymraeg (Llafaredd)

Sgiliau:

3. cyfathrebu yn glir ac yn hyderus, mewn modd sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa a'r pwrpas, gan ddefnyddio ystum a goslef yn briodol

Cymraeg (Darllen)

Sgiliau:

5. ymateb yn ddeallus, yn glir ac mewn modd priodol ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r plot, digwyddiadau, cymeriadau, syniadau, geirfa, arddull, cywair, cyflwyniad, ffurf, gan gynnig sylwadau neu farn a defnyddio termau perthnasol

Mathemateg

Sgiliau: 2. Cyfathrebu yn fathemategol

- defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gynrychioli data

Mathemateg

Sgiliau: 3. Rhesymu yn fathemategol

- datblygu amrywiaeth o strategaethau pen ac ysgrifenedig o gyfrifiannu

Gweithgaredd 1: Diwrnod Joseph



Cysylltiadau â'r fframwaith sgiliau

Er mwyn hwyluso'r dasg o gasglu tystiolaeth, y cynnig yw eich bod yn canolbwyntio i ddechrau ar bob un o'r egwyddorion a ddangosir fel prif ffocws yn y tabl isod.

Defnyddio gwybodaeth fathemategol

- Defnyddio rhifau
- Mesur
- Casglu gwybodaeth

Cyfrifo

- Defnyddio'r system rifau
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau

Dehongli canfyddiadau a'u cyflwyno

- Trafod ac esbonio gwaith
- Cymharu data
- Cofnodi a dehongli data a chyflwyno canfyddiadau

Allwedd

- Prif ffocws
- Ffocws achlysurol
- Dim ffocws bwriadol

Mae'r adran **Beth i chwilio amdano** ar ddiwedd y gweithgaredd hwn yn cynnig syniadau am y fath o dystiolaeth y gallwch ei ddisgwyl a'r celloedd y bydd yn perthyn iddyn nhw. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi sylweddoli y gall ystod o dystiolaeth arall gael ei greu ac y bydd hwn yn perthyn i egwyddorion neu gelloedd eraill.

Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn mewn dwy ran. O ganlyniad, efallai y byddwch yn dymuno ei daenu dros ddau neu fwy o sesiynau.

Yn rhan gyntaf y gweithgaredd, gofynnir i'r dysgwyr roi set o gardiau sy'n cynnwys gwybodaeth am ddiwrnod arferol ym mywyd gwaith Joseph Evans yn eu trefn. Mae nifer o ddilyniannau'n bosibl, ac anogir y dysgwyr i drafod trefn eu cardiau nhw gydag eraill.

Yn ail ran y gweithgaredd, mae'r dysgwyr yn defnyddio'r daflen adnoddau a'r daflen ffeithiau i gasglu fwy o wybodaeth am yr amodau gwaith mewn pwll glo yn yr 1840au. Yna maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth ar y daflen ffeithiau i ddatrys problemau rhif sy'n ymwneud â bywyd Joseph Evans.

Adnoddau

Ar gyfer rhan gyntaf y gweithgaredd, bydd angen set o'r cardiau i'w torri allan ar bob grŵp o ddysgwyr. Cyn dechrau'r gweithgaredd, llungopiwch digon o'r daflen gardiau ar bapur cryf a'u lamineiddio (os yw'n bosibl) cyn eu torri o'r daflen.

Ar gyfer ail ran y gweithgaredd, bydd angen copi o'r daflen adnoddau, y daflen ffeithiau a'r daflen waith ar bob grŵp neu bâr o ddysgwyr.

Efallai y byddwch yn dymuno darparu cyfrifiannellau, os tybiwch fod hyn yn addas.

Datblygu'r gweithgaredd (rhan 1)

- Dosbarthwch set o gardiau i bob grŵp o ddysgwyr.
- Ysgogwch feddwl a thrafodaeth dosbarth cyfan drwy ofyn cwestiynau megis:
 - Pa wybodaeth sydd ar y cardiau?
 - Sut y tybiwch chi y gallwch ddefnyddio'r cardiau?
 - Pa gerdyn allai ddod yn gyntaf? ...yn olaf?
- Wrth i'r dysgwyr ymateb, anogwch eraill i roi sylw a/neu ofyn cwestiynau pellach.
- Gofynnwch i bob grŵp o ddysgwyr drefnu eu cardiau 'i wneud stori'.
- Bydd sylwi'n fanwl ar y dysgwyr wrth iddyn nhw weithio yn rhoi cyfle i chi gasglu tystiolaeth am eu sgiliau meddwl, cyfathrebu a rhif.
- Rhowch ddigon o amser i'r grwpiau weithio ar y dasg, cyn eu dwyn at ei gilydd i rannu a chymharu dilyniannau eu cardiau.
- Bydd dewis dysgwyr penodol a gofyn cwestiynau priodol iddyn nhw, e.e. 'Pam ddewisoch y drefn yna i'r cardiau?', 'A fyddai'n well i'w trefnu mewn ffordd wahanol?' yn rhoi cyfleoedd i chi gasglu tystiolaeth bellach.
- Yn dilyn yr adrodd yn ôl, efallai y byddwch yn dymuno gadael mwy o amser i'r dysgwyr ddilyn ymlaen â'r syniadau a drafodwyd.

Cymeriad dychmygol yw Joseph Evans. Fodd bynnag, mae'r disgrifiad yma wedi'i seilio ar dystiolaeth a roddwyd gan blant sy'n weithwyr i'r Comisiwn Brenhinol ar Blant yn y Pyllau Glo 1840–1842.

Datblygu'r gweithgaredd (rhan 2)

- Dangoswch gopi o'r daflen adnoddau ar y bwrdd gwyn a/neu dosbarthwch gopi i bob grŵp o ddysgwyr.
- Ysgogwch feddwl a thrafodaeth dosbarth cyfan drwy ofyn cwestiynau megis:
 - Beth, yn eich barn chi, mae'r daflen hon yn ei ddangos?
 - A oes rhai pethau yn y lluniau y gallwch ddarllen amdany'n nhw ar y cardiau?
 - Beth ydy'ch teimladau chi am y pethau a welwch yn y lluniau?
- Dosbarthwch gopi o'r daflen ffeithiau a chopi o'r daflen waith i bob grŵp. Yr un wybodaeth sydd ar y daflen ffeithiau ag sydd ar y cardiau.
- Heriwch y dysgwyr i ddod o hyd i ragor am fywyd Joseph Evans drwy ddatrys y problemau ar y daflen waith, gan ddefnyddio'r daflen ffeithiau a ddarperir i gasglu'r wybodaeth.
- Bydd sylwi'n fanwl ar y dysgwyr wrth iddyn nhw weithio yn rhoi cyfle i chi gasglu tystiolaeth am eu sgiliau meddwl, cyfathrebu a rhif.
- Gadewch ddigon o amser i'r dysgwyr weithio ar y dasg cyn eu dwyn at ei gilydd i rannu a chymharu eu canlyniadau a'u dulliau.
- Bydd dewis dysgwyr penodol a gofyn cwestiynau priodol iddyn nhw, e.e. 'Sut oeddech wedi gweithio allan yr ateb?', 'Gallwch chi wneud y cyfrifiad mewn ffordd arall?', 'Sut allwch wirio'r ateb?' yn rhoi cyfleoedd i chi gasglu tystiolaeth bellach.
- Yn dilyn y sesiwn adrodd yn ôl, efallai y byddwch yn dymuno gadael mwy o amser i'r dysgwyr ddilyn ymlaen â'u syniadau.

Ddoe a heddiw	Gweithgaredd 1: Diwrnod Joseph	Taflen adnoddau
   		
Pob delwedd © Amgueddfa Cymru		

Enghraifft o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth

Ar ôl treulio peth amser yn darllen ac yn trafod y daflen ffeithiau, heriodd yr athro y dysgwyr i ddatrys y problemau ar y daflen waith. Dywedwyd wrthyn nhw y byddai angen iddyn nhw weithio gyda'i gilydd i ganfod y ffeithiau rhif perthnasol i ddatrys pob problem, ac wedyn i weithio allan yr atebion.

Cyn gynted ag y dechreuodd y dysgwyr ar y gweithgaredd, daeth hi'n amlwg i'r athro bod rhai ohonyn nhw'n 'eistedd yn ôl' gan adael i'r lleill wneud y gwaith. O ganlyniad, anogodd yr athro y dysgwyr i ysgrifennu'r ffeithiau, y cyfrifo a'r atebion, pob un yn ei dro. Dyna sicrhau bod rhan gan bob un yn y dasg. Roedd hi'n bosibl i'r rhai hynny oedd yn ansicr sut i barhau holi aelodau eraill eu grŵp, fel eu bod i gyd yn trafod pob problem a'r dulliau i'w datrys.

Cerddodd yr athro o amgylch y grwpiau wrth iddyn nhw weithio a nododd enghreifftiau o ystyriaeth ddofn wrth i'r dysgwyr geisio penderfynu ar y dulliau gorau ar gyfer pob problem.

Dywedodd un dysgwr y gallai hi gyfrifo'r ateb i'r cwestiwn ynglŷn â blwyddyn geni Joseph drwy 'weld beth sy'n rhaid ei adio at 1829 i roi 2008 neu drwy dynnu 1829 o 2008'. Cynnig arall i gael gwerth bras i'r ateb fyddai 'cant a rhywbeth – ac yn nes at ddau gant na chant'.

Roedd yr athro wrth law i gynnig mewnbwn i'r trafodaethau gan i rai dysgwyr gael anhawster â pheth o'r gwaith cyfrifo. Er enghraifft, cafodd un grŵp drafferth wrth geisio dod o hyd i 6 lot o $6\frac{1}{4}$ i gyfrifo cyflog wythnosol Joseph. Cynnig yr athro iddyn nhw oedd y gallan nhw gyfrifo 6 lot o 6 yn gyntaf ac yna 6 lot o $\frac{1}{4}$. Roedd hyn o gryn gymorth i'r dysgwyr ac roedd hefyd o gymorth iddyn nhw gyda'r problem nesaf ar y daflen.

Ddoe a heddiw

Gweithgaredd 1: Diwrnod Joseph

Taflien
Waith

Enw(au): Ellie, Sophie, Owen & Samira

Problem	Ffeithiau rhif i mi eu defnyddio	Gwaith cyfrifo	Ateb
Beth ydych chi'n meddwl oedd oed Joseph pan ddechreuodd weithio?	Mae Joseph bron yn <u>11</u> mlwydd oed. Mae wedi bod yn gweithio am tua <u>10</u> mis.	<u>11</u> blwyddyn - <u>10</u> mis = ychydig dros 10	<u>10</u> mlwydd oed
Yn mha flwyddyn ydych chi'n meddwl roedd Joseph yn dweud ei stori?	Cafodd Joseph ei eni yn <u>1829</u> Mae bron yn <u>11</u> mlwydd oed	<u>1829</u> + <u>10</u> = <u>1839</u>	<u>1839</u>
Pa mor bell yn ôl oedd hi pan gafodd Joseph ei eni?	Cafodd Joseph ei eni yn <u>1829</u> Eleni, y flwyddyn ydy 20 <u>08</u>	<u>2008</u> - <u>1829</u> = <u>179</u>	<u>179</u> o flynyddoedd
Faint o geiniogau roedd Joseph yn eu hennill mewn wythnos?	Mae Joseph yn ennill <u>$6\frac{1}{4}$</u> c pob dydd. Mae'n gweithio <u>6</u> diwrnod yr wythnos.	$6 \times 6 = 36$ $6 \times \frac{1}{4} = 1\frac{1}{2}$ <u>36</u> + <u>$1\frac{1}{2}$</u>	<u>$37\frac{1}{2}$</u> c
Tua faint o arian mae Joseph wedi'i ennill ers iddo ddechrau gweithio?	Mae Joseph yn ennill <u>$37\frac{1}{2}$</u> c yr wythnos. Mae wedi bod yn gweithio am tua <u>10</u> mis.	<u>$37\frac{1}{2} \times 4 = 148$</u> + <u>2</u> = <u>150</u>	<u>150.00</u>
Tua faint o fawgdi o lo mae Joseph yn eu symud pob dydd?	Mae pob tram yn cario <u>3</u> o fawgdi. Yn mhob tren mae <u>2</u> o dramiau. Pob diwrnod mae Joseph yn symud tua <u>20</u> tren.	<u>$3 \times 2 \times 20$</u> = <u>120</u>	<u>120</u>

Er bod yr athro wedi sicrhau bod cyfrifianellau wrth law, cyfrifo yn y pen wnaeth y rhan fwyaf.

Wedi iddyn nhw gwblhau'r daflen waith, roedd y dysgwyr yn awyddus i wybod a oedd eu hatebion yn gywir. Roedd llawer o gwestiynu rhwng y grwpiau ar ddiwedd y sesiwn, er enghraifft, 'Wyt ti wedi gwneud y cwestiwn yma?' a 'Pa ateb cefaiist ti i'r cwestiwn hwn?'.

Yna aeth yr athro drwy bob problem gyda'r dosbarth, gan drafod eu hatebion a'u dulliau. Barn yr athro a'r dysgwyr oedd bod hwn wedi bod yn ymarfer gwerthfawr, gan fod y dysgwyr yn falch o gael adborth ar eu gwaith.

Yr atebion disgwyledig i'r problemau

- | | | |
|---------------------|-------------------|--------------------------------|
| (1) 10 | (2) 1839 neu 1840 | (3) y flwyddyn gyfredol – 1829 |
| (4) $37\frac{1}{2}$ | (5) 15 neu 16 | (6) 120 |

Dyma sylwadau rhai athrawon am y gweithgaredd

Byddwn yn gosod
Joseph Evans mewn
'man poeth'.

Dyma deunydd
traws-gwricwlaidd
gwyh gyda
cyfarwyddiadau clir
i'w dilyn.

Mae hwn yn cyd-fynd
yn dda ag astudiaeth
o lafur plant mewn
hanes ac yn y cyfnod
cyfoes.

Roedd cyfleoedd gwyh
i asesu gallu'r disgyblion
i gymhwyso'r sgiliau a
ddysgwyd yn flaenorol.

Roedd y deunyddiau hyn
yn hynod o ddefnyddiol
ar gyfer datblygu sgiliau
rhif y disgyblion mewn
cyd-destun diddorol a
symbylol.

Mae'r gweithgaredd hwn
yn ffitio'n berffaith gyda'n
testun Blwyddyn 5 ar hanes
yr ardal leol yn y bedwaredd
ganrif ar bymtheg.

Beth i chwilio amdano

Mesur

Wrth iddyn nhw benderfynu ar ddilyniant priodol ar gyfer eu cardiau, a all y dysgwyr:

- adnabod y cyfeiriadau at amser ar y cardiau (Cell 1)
- defnyddio rhesymeg briodol i osod y digwyddiadau yn nhrefn amser (Cell 2)
- gwerthfawrogi y gall bod mwy nag un dilyniant yn bosibl (Cell 2)?

Casglu gwybodaeth

Wrth iddyn nhw ddefnyddio'r daflen adnoddau a/neu'r daflen ffeithiau, a all y dysgwyr:

- adnabod yr angen i ddefnyddio gwybodaeth o'r daflen ffeithiau (Cell 1)
- deall a dehongli'r wybodaeth sydd ar y daflen adnoddau (Cell 2)
- darllen a deall yr wybodaeth ar y daflen ffeithiau (Cell 2)
- dewis y data priodol o'r daflen ffeithiau i ddatrys problem benodol (Cell 3)?

Defnyddio amrywiaeth o ddulliau

Wrth iddyn nhw ddatrys y problemau ar y daflen waith, a all y dysgwyr:

- ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i adio a thynnu rhifau bach yn y pen (Cell 2)
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfrifo yn y pen, ar bapur ac ar gyfrifiannell, fel y bo'n briodol (Cell 3)
- brasamcanu gwerthoedd ac amcangyfrif atebion (Cell 3)
- gwirio bod y canlyniadau'n gwneud synnwyr drwy gyfeirio at faint y rhifau neu'r cyd-destun (Cell 3)
- gwirio cywirdeb eu hatebion drwy amcangyfrif yn y pen, brasamcanu neu ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro i benderfynu a yw'r canlyniadau yn gwneud synnwyr neu beidio (Cell 4)?

Rydw i'n mynd i'r gwely am hanner awr wedi chwech.

Rydw i'n dechrau gweithio am bedwar o'r gloch.

Rydw i'n mynd i lawr y pwll mewn basged ac mae'n rhaid i mi ddal yn dynn. Rwy'n mynd i lawr tua 105 o droedfeddi (tua 35 metr) yn y fasedg.

Wedi cyrraedd adref rydw i'n ymolchi, bwyta fy nhe ac yna'n gorffwys. Os nad ydw i wedi blino gormod, fel arfer rydw i'n chwarae gyda fy mrodyr a fy chwiorydd rhwng pump o'r gloch ac amser gwely.

Rydw i'n symud y tramiau llawn at ddyn a elwir hitshwr sy'n anfon y glo i'r wyneb. Pob diwrnod, rydw i'n symud tua 20 trê'n o lo at yr hitshwr.

Rydw i wedi bod yn gweithio yma am tua 10 mis ac rwy'n ennill swllt a thair ceiniog ($6\frac{1}{4}$ ceiniog) pob dydd. Rydw i'n gweithio chwe diwrnod yr wythnos ac yn mynd i'r Capel ar ddydd Sul.

Rydw i'n gweithio tan bedwar o'r gloch y prynhawn.




Cefais fy ngeni yn 1829 ac rwyf bron yn 11 mlwydd oed.

Ar fore gwaith, rydw i'n codi am hanner awr wedi tri. Rydw i'n ymolchi, gwisgo a bwyta fy mrecwast.

Fy enw i ydy Joseph Evans ac rydw i'n gweithio ym Mhwll Llanbedr, Cymru.

Rhwng 11 o'r gloch a hanner dydd rydw i'n cael egwyl ac yn bwyta fy mwyd o fara a chaws. Rhai dyddiau mae'n rhaid i mi fynd heb fy mwyd oherwydd bod y llygod mawr wedi'i fwyta.

Y peth cyntaf sydd raid i mi'i wneud ydy cynnau'r canhwylau. Yna rydw i'n clymu fy merlyn ar flaen trê'n o ddau dram. Wagenni bach sy'n cario basgedi o lo ydy tramiau. Mae pob tram yn cario tair basged fawr o lo.



Fy enw i ydy Joseph Evans ac rydw i'n gweithio ym Mhwll Llanbedr, Cymru.



Cefais fy ngeni yn 1829 ac rwyf bron yn 11 mlwydd oed. Rydw i wedi bod yn gweithio yma am tua 10 mis ac rwy'n ennill swllt a thair ceiniog ($6\frac{1}{4}$ ceiniog) pob dydd. Rydw i'n gweithio chwe diwrnod yr wythnos ac yn mynd i'r Capel ar ddydd Sul.

Ar fore gwaith, rydw i'n codi am hanner awr wedi tri. Rydw i'n ymolchi, gwisgo a bwyta fy mrecwast.

Rydw i'n dechrau gweithio am bedwar o'r gloch. Rydw i'n mynd i lawr y pwll mewn basged ac mae'n rhaid i mi ddal yn dynn. Rwy'n mynd i lawr tua 105 o droedfeddi (tua 35 metr) yn y fased.

Y peth cyntaf sydd raid i mi'i wneud ydy cynnau'r canhwylau. Yna rydw i'n clymu fy merlyn ar flaen trê'n o ddau dram. Wagenni bach sy'n cario basgedi o lo ydy tramiau. Mae pob tram yn cario tair basged fawr o lo.

Rydw i'n symud y tramiau llawn at ddyn a elwir hitshwr sy'n anfon y glo i'r wyneb. Pob diwrnod, rydw i'n symud tua 20 trê'n o lo at yr hitshwr.

Rydw i'n gweithio tan bedwar o'r gloch y prynhawn. Rhwng 11 o'r gloch a hanner dydd rydw i'n cael egwyl ac yn bwyta fy mwyd o fara a chaws. Rhai dyddiau mae'n rhaid i mi fynd heb fy mwyd oherwydd bod y llygod mawr wedi'i fwyta.

Wedi cyrraedd adref rydw i'n ymolchi, bwyta fy nhe ac yna'n gorffwys. Os nad ydw i wedi blino gormod, fel arfer rydw i'n chwarae gyda fy mrodyr a fy chwiorydd rhwng pump o'r gloch ac amser gwely.

Rwy'n mynd i'r gwely am hanner awr wedi chwech.

Enw(au):

Problem	Ffeithiau rhif i mi eu defnyddio	Gwaith cyfrifo	Ateb
Beth ydych chi'n meddwl oedd oed Joseph pan ddechreuodd weithio?	Mae Joseph bron yn mlwydd oed. Mae wedi bod yn gweithio am tua mis.		mlwydd oed
Ym mha flwyddyn ydych chi'n meddwl roedd Joseph yn dweud ei stori?	Cafodd Joseph ei eni yn Mae bron yn mlwydd oed.		
Pa mor bell yn ôl oedd hi pan gafodd Joseph ei eni?	Cafodd Joseph ei eni yn Eleni, y flwyddyn ydy 20 __.		 o flynyddoedd
Faint o geiniogau roedd Joseph yn eu hennill mewn wythnos?	Mae Joseph yn ennill c pob dydd. Mae'n gweithio diwrnod yr wythnos.		c
Tua faint o arian mae Joseph wedi'i ennill ers iddo ddechrau gweithio?	Mae Joseph yn ennill c yr wythnos. Mae wedi bod yn gweithio am tua mis.		£.....
Tua faint o fasgedi o lo mae Joseph yn eu symud pob dydd?	Mae pob tram yn cario o fasgedi. Ym mhob trên mae o dramiau. Pob diwrnod mae Joseph yn symud tuag trên.		

Gweithgaredd 2: Gwaith a chwarae



Cysylltiadau â'r fframwaith sgiliau

Er mwyn hwyluso'r dasg o gasglu tystiolaeth, y cynnig yw eich bod yn canolbwyntio i ddechrau ar bob un o'r egwyddorion a ddangosir fel prif ffocws yn y tabl isod.

Defnyddio gwybodaeth fathemategol

- ☒ Defnyddio rhifau
- ☐ Mesur
- ☒ Casglu gwybodaeth

Cyfrifo

- ☐ Defnyddio'r system rifau
- ☐ Defnyddio amrywiaeth o ddulliau

Dehongli canfyddiadau a'u cyflwyno

- ☒ Trafod ac esbonio gwaith
- ☐ Cymharu data
- ☒ Cofnodi a dehongli data a chyflwyno canfyddiadau

Allwedd

- ☒ Prif ffocws
- ☒ Ffocws achlysurol
- ☐ Dim ffocws bwriadol

Mae'r adran **Beth i chwilio amdano** ar ddiwedd y gweithgaredd hwn yn cynnig syniadau am y fath o dystiolaeth y gallwch ei ddisgwyl a'r celloedd y bydd yn perthyn iddyn nhw. Fodd bynnag, mae'n bwysig i chi sylweddoli y gall ystod o dystiolaeth arall gael ei greu ac y bydd hwn yn perthyn i egwyddorion neu gelloedd eraill.

Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn mewn dwy ran. O ganlyniad, efallai y byddwch yn dymuno ei daenu dros ddau neu fwy o sesiynau.

Yn rhan gyntaf y gweithgaredd, mae'r dysgwyr yn casglu gwybodaeth am ddiwrnod ym mywyd Joseph Evans, ac yn ei defnyddio i gwblhau tablau a llunio siart addas. Yna bydd cyfle ganddyn nhw i ddehongli'u canlyniadau ac i'w trafod.

Yn ail ran y gweithgaredd, mae'r dysgwyr yn casglu gwybodaeth am eu diwrnod ysgol eu hunain ac yn cynrychioli'r wybodaeth hon ar dablau a siart. Yna, mae'r dysgwyr yn cymharu'r siartiau, gan nodi'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng y ffyrdd y maen nhw a Joseph Evans yn treulio'u hamser yn ystod diwrnod cyffredin.

Adnoddau

Ar gyfer rhan gyntaf y gweithgaredd, bydd angen copi o'r daflen waith a chopi o'r daflen ffeithiau o Weithgaredd 1 ar bob grŵp neu bâr o ddysgwyr.

Ar gyfer ail ran y gweithgaredd, bydd angen copi o'r daflen weithgaredd ar bob grŵp. Hefyd, bydd angen darn o bapur glân neu bapur graff ar bob dysgwr i gwblhau eu tablau a siartiau.

Datblygu'r gweithgaredd (rhan 1)

- Dosbarthwch gopi o'r daflen ffeithiau a ddefnyddiwyd yng Ngweithgaredd 1 a chopi o dudalen gyntaf y daflen waith i bob grŵp o ddysgwyr.
- Ysgogwch feddwl a thrafodaeth dosbarth cyfan drwy ofyn cwestiynau megis:
 - Faint o'r gloch oedd hi ar Joseph yn codi ar fore gwaith?
 - Pa weithgareddau oedd Joseph yn ei wneud y rhan fwyaf o'i amser?
 - Faint o amser rhydd oedd gan Joseph i chwarae?
- Wrth i'r dysgwyr ymateb, anogwch eraill i roi sylw a/neu ofyn cwestiynau pellach.
- Ar ôl y cyflwyniad cyffredinol, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth ar y daflen ffeithiau i gwblhau'r tablau sy'n dangos 'Beth roedd Joseph yn ei wneud'.
- Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n cynrychioli'u canlyniadau ar siart. Efallai y byddwch yn dymuno darparu'r ail dudalen o'r daflen waith i gynnal y dysgwyr wrth iddyn nhw weithio.
- Fel arall, gallech chi adael y dasg yma'n 'agored'. Bydd gwneud hwn yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr benderfynu ar fath y siart i lunio a/neu'r graddfeydd i ddefnyddio.
- Bydd sylwi'n fanwl ar y dysgwyr wrth iddyn nhw weithio yn rhoi cyfle i chi gasglu tystiolaeth am eu sgiliau meddwl, cyfathrebu a rhif.
- Rhowch ddigon o amser i'r grwpiau weithio ar y dasg, cyn eu dwyn at ei gilydd i rannu a chymharu eu canlyniadau.
- Bydd dewis dysgwyr penodol i adrodd yn ôl yn rhoi rhagor o gyfle i chi gasglu tystiolaeth benodol am unigolion.

Ddoe a heddiw	Gweithgaredd 2: Gwaith a chwarae	Taflen waith																
Enw(au):																		
Roedd Joseph Evans yn byw yng Nghyfnod Fictoria.																		
Roedd yn 10 mlwydd oed yn dechrau gweithio yn y pwll glo.																		
1. Defnyddiwch y daflen ffeithiau i gwblhau'r tabl hwn.																		
<table><thead><tr><th>Amser</th><th>Beth roedd Joseph yn ei wneud</th></tr></thead><tbody><tr><td></td><td>Codi a pharatoi i fynd i'r gwaith</td></tr><tr><td>04:00 tan 11:00</td><td></td></tr><tr><td>11:00 tan hanner dydd</td><td></td></tr><tr><td></td><td>Gweithio</td></tr><tr><td></td><td>Mynd adref, ymolchi, cael ei de a gorffwys</td></tr><tr><td>17:00 tan 18:30</td><td></td></tr><tr><td></td><td>Cysgu</td></tr></tbody></table>			Amser	Beth roedd Joseph yn ei wneud		Codi a pharatoi i fynd i'r gwaith	04:00 tan 11:00		11:00 tan hanner dydd			Gweithio		Mynd adref, ymolchi, cael ei de a gorffwys	17:00 tan 18:30			Cysgu
Amser	Beth roedd Joseph yn ei wneud																	
	Codi a pharatoi i fynd i'r gwaith																	
04:00 tan 11:00																		
11:00 tan hanner dydd																		
	Gweithio																	
	Mynd adref, ymolchi, cael ei de a gorffwys																	
17:00 tan 18:30																		
	Cysgu																	
2. Cwblhewch y tabl hwn i ddangos sut roedd Joseph yn treulio'i ddiwrnod gwaith.																		
<table><thead><tr><th>Beth roedd Joseph yn ei wneud</th><th>Nifer yr oriau</th></tr></thead><tbody><tr><td>Gweithio</td><td></td></tr><tr><td>Chwarae</td><td></td></tr><tr><td>Cysgu</td><td></td></tr><tr><td>Arall</td><td></td></tr></tbody></table>			Beth roedd Joseph yn ei wneud	Nifer yr oriau	Gweithio		Chwarae		Cysgu		Arall							
Beth roedd Joseph yn ei wneud	Nifer yr oriau																	
Gweithio																		
Chwarae																		
Cysgu																		
Arall																		

Enghraifft o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth

Ar ôl iddyn nhw gael eu hatgoffa o rai o'r ffeithiau pwysig am ddiwrnod gwaith Joseph, roedd y grwpiau yn awyddus i gael dechrau ar y daflen waith.

Eglurodd yr athrawes y dylen nhw nodi amser cychwyn ac amser gorffen ar gyfer pob rhan o ddiwrnod Joseph ac y dylai'r holl weithgareddau adio i 24 awr.

Penderfynodd un grŵp ddarllen drwy'r daflen ffeithiau unwaith eto, a defnyddio pen blaen ffelt llachar i nodi unrhyw amser oedd yno. Yna aethan nhw ati i gopïo'r amserau hyn i'r manau priodol yn y tabl.

Fodd bynnag, wedi iddyn nhw gwblhau rhan o'r daflen, sylwodd Amanda bod yr amseroedd ar y daflen ffeithiau yn defnyddio'r cloc 12-awr tra bod y daflen waith yn defnyddio'r cloc 24-awr. Cafwyd trafodaeth hir ar hyn gan na allai'r dysgwyr gytuno ar ysgrifennu amseroedd gyda'r un cloc na'r llall. Byddai defnyddio'r cloc 12-awr yn golygu newid yr amseroedd ar y daflen gan wneud 'tipyn o lanast', felly penderfynodd y grŵp ar ddefnyddio fformat y cloc 24-awr ar gyfer gweddill yr amseroedd. Fodd bynnag, daethan nhw i gytuno ar ychwanegu a.m. a p.m. 'rhag i ni anghofio pa un ydy pa un'.

Yna, defnyddiodd pob aelod o'r grŵp gopi o'r ail dudalen o'r daflen waith i lunio siartiau bar i ddangos diwrnod gwaith Joseph.

Gofynnodd yr athrawes i'r grŵp egluro'r hyn oedd ar eu siart i weddill y dosbarth. Siaradodd y dysgwyr yn hyderus, gan ddefnyddio'r ail dabl ar y daflen waith i gyfiawnhau sut y dangoswyd pob gweithgaredd ar y siart bar. Sylw David oedd, 'Mae'r graff yn dangos yn glir fod Joseph yn gweithio am oriau hir a bod ganddo dim llawer o amser chwarae'.


1. Defnyddiwch y daflen ffeithiau i gwblhau'r tabl hwn.

Amser	Beth roedd Joseph yn ei wneud
3:30 am - 4:00 a.m.	Codi a pharatoi i fynd i'r gwaith
04:00 tan 11:00	Rwy'n mynd lawr mewn basged i weithio
11:00 tan hanner dydd	Cael saib a bwyta cinio
Canol dydd i 4:00 p.m.	Gweithio
16:00 - 17:00 p.m.	Mynd adref, ymolchi, cael ei de a gorffwys
17:00 tan 18:30	Chwarae gyda'r brodyr a chwarydd
18:30 p.m. - 03:30 a.m.	Cysgu

2. Cwblhewch y tabl hwn i ddangos sut roedd Joseph yn treulio'i ddiwrnod gwaith.

Beth roedd Joseph yn ei wneud	Nifer yr oriau
Gweithio	11:00 awr
Chwarae	1:30 awr
Cysgu	9:00 awr
Arall	2:30 awr

3. Lluniwch siart bar i ddangos sut roedd Joseph yn treulio'i ddiwrnod gwaith.



Datblygu'r gweithgaredd (rhan 2)

- Dangoswch gopi o'r daflen weithgaredd ar y bwrdd gwyn a/neu dosbarthwch gopi i bob grŵp o ddysgwyr. Hefyd, bydd angen papur glân neu bapur graff ar bob dysgwr.
- Ysgogwch feddwl a thrafodaeth dosbarth cyfan drwy ofyn cwestiynau megis:
 - Ar ba fath o bethau ydych chi'n treulio'r rhan fwyaf/lleiaf o'ch amser yn ystod y dydd?
 - Am faint o'r gloch ydych chi'n codi/mynd i'r gwely?
 - Faint o amser ydych chi'n ei dreulio'n cysgu?
- Wrth i'r dysgwyr ymateb, anogwch erall i roi sylw a/neu ofyn cwestiynau pellach.
- Eglurwch i'r dysgwyr eu bod am lunio tablau a siart sy'n debyg i'r rhai blaenorol. Y tro hwn, fodd bynnag, byddan nhw'n defnyddio gwybodaeth am eu diwrnod gwaith (ysgol) nhw.
- Sicrhewch fod y dysgwyr yn deall, er y byddan nhw'n trafod y gweithgaredd o fewn eu grŵp, y bydd angen iddyn nhw ddefnyddio'u ffeithiau nhw i lunio'r tablau a'r siart.
- Bydd sylwi'n fanwl ar y dysgwyr wrth iddyn nhw weithio yn rhoi cyfle i chi gasglu tystiolaeth am eu sgiliau meddwl, cyfathrebu a rhif.
- Gadewch ddigon o amser i'r dysgwyr weithio ar y dasg, cyn eu dwyn at ei gilydd i rannu a chymharu eu canlyniadau.
- Yn ystod y sesiwn adrodd yn ôl, anogwch y dysgwyr i sylwi'n fanwl ac i drafod ar yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng eu diwrnod nhw a diwrnod Joseph.

Ddoe a heddiw

Gweithgaredd 2: Gwaith a chwarae

Taflen weithgaredd

1. Lluniwch dabl, fel yr un isod, i ddangos beth rydych chi'n ei wneud ar ddiwrnod ysgol.

Cofiwch gynnwys y pethau pwysig rydych chi'n eu gwneud.

Amser	Beth rydw i'n ei wneud
	Codi a pharatoi i fynd i'r ysgol

2. Lluniwch dabl, fel yr un isod, i ddangos sut yr ydych yn treulio'ch diwrnod ysgol.

Rhowch frasamcan o bob amser i'r hanner awr agosaf.

Gwnewch yn siŵr mai 24 ydy cyfanswm yr oriau.

Beth rydw i'n ei wneud	Nifer yr oriau
Gweithio yn yr ysgol	

3. Lluniwch siart i ddangos sut yr ydych chi'n treulio eich diwrnod ysgol.

4. Cymharwch eich diwrnod ysgol chi â diwrnod gwaith Joseph.

Pa bethau sy'n debyg a pha bethau sy'n wahanol rhyngddyn nhw?

- Bydd dewis dysgwyr penodol a gofyn cwestiynau priodol iddyn nhw, e.e. 'Ydy'r nifer o oriau sydd wedi eu cofnodi yn adio i 24?' neu 'Sut oeddech wedi brasamcanu'r amseroedd?' yn rhoi cyfleoedd i chi gasglu tystiolaeth bellach.
- Yn dilyn y sesiwn adrodd yn ôl, efallai y byddwch yn dymuno gadael mwy o amser i'r dysgwyr ddilyn ymlaen â'u syniadau.

Rhai enghreifftiau o ymarfer yn yr ystafell ddosbarth

Wedi iddyn nhw gwblhau'r siartiau am ddiwrnod Joseph mewn sesiwn gynharach, roedd y dysgwyr yn frwd wrth glywed y byddan nhw nawr yn cael y cyfle i gwblhau tablau a llunio siart i ddarlunio diwrnod arferol yn eu bywyd nhw eu hunain.

Cyflwynodd yr athro'r sesiwn drwy ddangos ar y bwrdd gwyn rhai cwestiynau allweddol i'r dysgwyr eu hystyried:

Faint o'r gloch ydych chi'n codi?

Faint o oriau ydych chi'n eu treulio yn yr ysgol?

Beth arall ydych chi'n ei wneud gyda'ch amser?

Pa mor hir ydych chi'n ei dreulio'n gwneud y pethau hyn?

Faint o'r gloch ydych chi'n mynd i'r gwely?

Arweiniodd hyn at drafodaeth frwd ac yna aeth y dysgwyr ati i lunio'u tablau. Roedd brasamcanu eu hamseroedd i'r hanner awr agosaf yn anodd i rai, ond llwyddodd y rhan fwyaf i nodi amserlen oedd yn bosibl iddyn nhw weithio oddi wrthi.


Yna lluniodd y dysgwyr siartiau bar i ddarlunio'r wybodaeth oedd yn yr ail dabl.

Ar y cyfan, roedd y siartiau'n ddigon cywir, er bod rhai wedi anghofio cynnwys teitl a labeli i'r echelau.

Fodd bynnag, roedd y drafodaeth ar ddiwedd y sesiwn yn bwysig iawn gan ei bod yn dangos faint oedd y dysgwyr wedi'i ddysgu yn ystod y ddwy sesiwn. Roedden nhw'n gallu cymharu â gwrthgyferbynnu eu diwrnod nhw â diwrnod Joseph a dangos dealltwriaeth o agweddau hanesyddol yn y gwaith. Roedden nhw wedi mwynhau defnyddio rhif mewn cyd-destun gwahanol ac yn mynegi diddordeb mewn dysgu rhagor am sut newidiodd bywyd i blant.

Amser	Beth rwy'n gwneud
8:00 - 9:00	Paratoi i fynd i'r ysgol
9:00 - 10:30	Gwers iaf
10:30 - 11:00	amser chwarae
11:00 - 12:00	gwers
12:00 - 1:06pm	Cinio ac amser chwarae
1:00 - 2:00	gwers
2:00 - 2:30	amser chwarae
2:30 - 3:30	gwers
3:30 - 6:00	gwaith cartref, chwarae, cinio
6:00 - 8:00	gwyl i'r teledu
8:00 - 8:30	paratoi i fynd i'r gwely
8:30 - 8:00 a.m	Cysgu!

Gwaith	4 $\frac{1}{2}$ awr
chwarae / ymlacio	5 $\frac{1}{2}$ awr
cysgu	11 $\frac{1}{2}$ awr
eraill	2 $\frac{1}{2}$ awr



Gweithgaredd 2 | Gwaith a chwarae

Mewn dosbarth arall, gweithiodd y dysgwyr mewn grwpiau o dri i gasglu wybodaeth am Joseph o'r daflen ffeithiau. Darllenodd Seb, Elen a Rhys y wybodaeth yn ofalus ac yna'i rhestru yn ôl trefn amser. Yna defnyddiwyd yr wybodaeth i gwblhau'r tabl a'r graff bar sy'n dangos diwrnod Joseph.

Beth roedd Joseph yn ei wneud	Nifer yr oriau
Gweithio	11 awr
Chwarae	1 awr a hanner
Cysgu	9 awr
Arall <i>Paratoi</i>	2½ awr


Wrth i'r dysgwyr symud ymlaen at ail ran y gweithgaredd, llwyddodd yr athrawes i wyllo'u gwaith yn ofalus, gan roi cymorth yn ôl y gofyn a holi cwestiynau er mwyn eu clywed yn egluro'u rhesymu a'u dulliau gwaith. Er bod Seb, Elen a Rhys wedi defnyddio gwybodaeth am eu 'diwrnod' eu hunain i gynhyrchu eu tablau a graffiau, roeddyn nhw wedi cydweithio ar agweddau cyffredin megis talgrynnu amseroedd a gwirio canlyniadau. Er enghraifft, 'Rydyn ni'n cael 20 munud o amser chwarae yn y bore ac 15 munud yn y prynhawn. Dyna 35 munud felly byddwn yn ei dalgrynnu i lawr i 30 munud.' a hefyd 'Mae'n rhaid i bob diwrnod adio i 24 awr, ond dim ond 23 a hanner sydd yn dy dabl di'.



Yna defnyddiodd Seb, Elen a Rhys gyfrifiadur i gynhyrchu graffiau unigol sy'n dangos sut y maen nhw wedi treulio eu diwrnod. Cynnig yr athrawes iddyn nhw oedd efallai yr hoffon nhw osod graff diwrnod Joseph hefyd ar y cyfrifiadur er mwyn iddyn nhw allu cymharu eu graff 'nhw' a graff diwrnod Joseph.

Cyflwynwyd y graffiau (gweler y dudalen gyferbyn) i weddill y dosbarth ac roedd diddordeb mawr gan rai o'r dysgwyr yn niwrnod Seb gan ei fod yn treulio oriau maith yn gweithio ar fferm y teulu. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo bod hyn yn debyg iawn i ddiwrnod Joseph!

Eglurodd Seb bod y cyfrifiadur wedi dewis graddfeydd gwahanol ar gyfer y ddau graff. Dyna pam ei bod hi'n ymddangos ei fod yn cysgu'n hirach na Joseph, er mewn gwirionedd bod y gwrthwyneb yn wir. Barn Elen oedd y byddai'n well pe byddai'r ddau graff yn defnyddio'r un raddfa, 'Oherwydd yna gallwch weld y gwahaniaeth ond drwy edrych'.

Amser	Beth roedd Joseph yn ei wneud
3:30 tan 4:00 am	Codi a pharatoi i fynd i'r gwaith
04:00 tan 11:00	Mynd lawr y pwll mewn basged
11:00 tan hanner dydd	Gorffwys a bwyta cinio
12:00 tan 4:00 pm	Gweithio
4:00 pm tan 5:00 pm	Mynd adref, ymolchi, cael ei de a gorffwys
17:00 tan 18:30	Chwarae gyda brawd a chwaer
6:30 pm tan 3:30 am	Cysgu





Yn ystod y sesiwn adrodd yn ôl, gofynnodd yr athrawes gwestiynau oedd yn ei galluogi i gasglu rhagor o dystiolaeth am allu'r dysgwyr i ddefnyddio sgiliau rhif. Er enghraifft, 'Sut wyddoch chi faint o oriau rydych chi'n cysgu', 'Pa weithgaredd oedd Joseph yn treulio lleiaf o amser yn ei wneud?' a hefyd 'Gallet ti egluro sut oedd det ti wedi cyfrifo nifer yr oriau roedd det ti wedi'u treulio ar waith ysgol?'.

Roedd ymatebion y dysgwyr yn darparu dystiolaeth o'u gallu i ddefnyddio iaith data a mesurau, yn ogystal â'u defnydd o iaith fathemategol i gymharu canlyniadau.

Dyma sylwadau rhai athrawon am y gweithgaredd

Roedd yr uned hon yn un gwir ddiddorol i weithio arni a derbyniodd sylwadau positif gan aelodau eraill o staff fy ysgol.

Mae mantais bendant i roi cyfle i'r plant ddefnyddio mathemateg mewn cyd-destun y tu allan i ffiniau gwers fathemateg arferol.

Mwynheais i ddysgu'r gweithgaredd hwn gan i'r plant ymateb iddo mor dda.

Rwy'n defnyddio llawer o weithgareddau datrys problemau er mwyn gosod mathemateg mewn cyd-destunau gwahanol, ond rhoddodd yr uned hon gyd-destun oedd y tu hwnt i brofiadau blaenorol.

Yn fy marn i mae hwn yn weithgaredd cryf sy'n hawdd ei gyrchu gan ddysgwyr o bob gallu.

Mae'n berthnasol i raglenni gwaith hanes a gellir ei gymhwyso i gymharu â diwrnod ysgol plentyn tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd yr uned hon yn arbennig o ddefnyddiol i adnabod trafferthion rhai plant wrth iddyn nhw gymhwyso eu gwybodaeth o ffeithiau rhif.

Beth i chwilio amdano

Cofnodi a dehongli data a chyflwyno canfyddiadau

Wrth iddyn nhw gwblhau'r tablau a llunio siartiau addas, a all y dysgwyr:

- restru'r data yn nhrefn amser (Cell 2)
- dehongli'r data sydd yn y tablau (Cell 2)
- cwblhau'r siart bar ar ddiwrnod Joseph yn gywir (Cell 2)
- cyflwyno data personol mewn tablau priodol (Cell 3)
- llunio siart cywir yn dangos sut maen nhw'n treulio'u diwrnod nhw a labelu'r graff a'r echelinau yn briodol (Cell 3)
- dewis, llunio a dehongli amrywiaeth o ddulliau o gyflwyno data (Cell 4)?

Trafod ac esbonio gwaith

Wrth iddyn nhw drafod eu tablau a/neu eu siartiau, a all y dysgwyr:

- ddefnyddio iaith sy'n ymwneud â rhifau a chymharu wrth gymharu diwrnod Joseph â'u diwrnod eu hunain (Cell 2)
- defnyddio iaith rhif wrth ddisgrifio'u canlyniadau (Cell 2)
- defnyddio iaith sy'n ymwneud â lleoliad, data a mesuriadau wrth drafod eu gwaith (Cell 3)
- defnyddio iaith fathemategol, symbolau a nodiant cywir wrth gyflwyno gwaith (Cell 4)?

Enw(au):

Roedd Joseph Evans yn byw yng Nghyfnod Fictoria.

Roedd yn 10 mlwydd oed yn dechrau gweithio yn y pwll glo.

1. Defnyddiwch y daflen ffeithiau i gwblhau'r tabl hwn.


Amser	Beth roedd Joseph yn ei wneud
	Codi a pharatoi i fynd i'r gwaith
04:00 tan 11:00	
11:00 tan hanner dydd	
	Gweithio
	Mynd adref, ymolchi, cael ei de a gorffwys
17:00 tan 18:30	
	Cysgu

2. Cwblhewch y tabl hwn i ddangos sut roedd Joseph yn treulio'i ddiwrnod gwaith.

Beth roedd Joseph yn ei wneud	Nifer yr oriau
Gweithio	
Chwarae	
Cysgu	
Arall	

3. Lluniwch siart bar i ddangos sut roedd Joseph yn treulio'i ddiwrnod gwaith.

Sut roedd Joseph yn treulio'i ddiwrnod gwaith



1. Lluniwch dabl, fel yr un isod, i ddangos beth rydych chi'n ei wneud ar ddiwrnod ysgol.

Cofiwch gynnwys y pethau pwysig rydych chi'n eu gwneud.

Amser	Beth rydw i'n ei wneud
	Codi a pharatoi i fynd i'r ysgol

2. Lluniwch dabl, fel yr un isod, i ddangos sut yr ydych yn treulio'ch diwrnod ysgol.

Rhowch frasmcan o bob amser i'r hanner awr agosaf.

Gwnewch yn siŵr mai 24 ydy cyfanswm yr oriau.

Beth rydw i'n ei wneud	Nifer yr oriau
Gweithio yn yr ysgol	

3. Lluniwch siart i ddangos sut yr ydych chi'n treulio eich diwrnod ysgol.
4. Cymharwch eich diwrnod ysgol chi â diwrnod gwaith Joseph.

Pa bethau sy'n debyg a pha bethau sy'n wahanol rhyngddyn nhw?

the 1990s, the incidence of *S. flexneri* has increased in the United Kingdom [10]. In the United States, *S. flexneri* has been reported to be the most common serotype of *S. flexneri* isolated from children with acute colitis [11].

There is a paucity of data on the epidemiology of *S. flexneri* in the United Kingdom. In the 1970s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [12]. In the 1980s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [13].

In the 1990s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [14]. In the 2000s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [15].

In the 2010s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [16]. In the 2020s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [17].

In the 2030s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [18]. In the 2040s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [19].

In the 2050s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [20]. In the 2060s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [21].

In the 2070s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [22]. In the 2080s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [23].

In the 2090s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [24]. In the 2100s, *S. flexneri* was the most commonly isolated serotype of *S. flexneri* from children with acute colitis in the United Kingdom [25].